***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 872

# Gorchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg (Diddymu) 2015

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg (Diddymu) 2015.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

**Cadarnhau'r Cynllun**

**2.**—(1) Mae'r Cynllun a gyflwynwyd gan y Corff wedi ei gadarnhau.

(2) Mae'r Cynllun wedi ei nodi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Treuliau Gweinidogion Cymru**

**3.** Rhaid i dreuliau Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwneud a chadarnhau'r Gorchymyn hwn gael eu hysgwyddo gan y Corff.

*Carl Sergeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2015